# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 03 MAI 2023, ym MedRus Mawr, Penbryn.**

| | |
|---|---|
| Aelodau â phleidlais: | Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr); Dr Otar Akanyeti; Mr Thomas Bates; yr Athro Hazel Davey; Dr Sarah Davies; Mr Jonathan Fry, Cadeirydd Cangen PA y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Sarah Higgins; yr Athro Mererid Hopwood; Dr Aloysius Igboekwu; Dr Ffion Jones; Mr Dafi Jones, Llywydd UMCA; Dr Alex Mangold; Ms Elizabeth Manners, Swyddog Materion Academaidd, Undeb y Myfyrwyr; Dr Louise Marshall; Ms Jen Phipps; Dr Alexander Pitchford; Dr Heather Norris; Dr Samuel Raybone; yr Athro Eleri Pryse; Dr Alistair Shepherd; yr Athro Phillipp Schofield; Ms Aisleen Sturrock, Llywydd Undeb y Myfyrwyr; Dr Lucy Trotter; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion. |
| Aelodau heb bleidlais: | Yr Athro Iain Barber; Dr Cathryn Charnell-White; yr Athro Simon Cox; Dr Andrew Davies; yr Athro Andrew Evans; yr Athro Nigel Holt; Dr Thomas Jansen; yr Athro Helen Roberts, Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil, and Dr Anoush Simon. |
| Yn gweinyddu: | Mr Tim Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Dr Gethin Rhys, Dirprwy Gofrestrydd; Mr Mark Tweed, Aelod Annibynnol o'r Cyngor; a Ms Emma Williams, Cofrestrydd Academaidd. |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth: yr Athro Andrew Evans; yr Athro Iain Donnison; yr Athro Jamie Medhurst; yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol.

## 37. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

1. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. Dr Jim Provan, IBERS;
   2. Jeff Saycell, Rheolwr Adnoddau a Thiroedd;
   3. Olga Kittle, Glanhawr Adnoddau;
   4. Charlie McLeod, myfyriwr Cyfrifiadureg yn yr ail flwyddyn.
   5. Nick Bache, Rheolwr Technegol a Chynhyrchiadau yng Nghanolfan y Celfyddydau.

2. Croesawyd – Mark Tweed, aelod annibynnol o'r Cyngor, yn arsylwr.

3. Gweithredu Diwydiannol – Diwygiadau i Reoliadau Gradd Meistr Integredig

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr) ac Is-Ganghellor Dros Dro (SEN2223-066)

NODWYD

1. Bod diwygiadau i reoliadau academaidd wedi'u cymeradwyo'n weithredol gan yr Athro Tim Woods yn rhinwedd swydd Is-Ganghellor Dros Dro, yn dilyn ymgynghori ag adrannau a chyfadrannau ac argymhelliad gan Weithgor y Senedd.

2. O dan y rheoliadau diwygiedig, byddai byrddau arholi yn gallu dyfarnu graddau Meistr Integredig â dosbarth lle’r oedd marciau ar gael mewn o leiaf dwy ran o dair o'r credydau ar lefelau chwech a saith, gan gynnwys y rhai â dangosyddion Y/G. Wrth bennu dosbarth y dyfarniad, byddai modiwlau dangosyddion Q yn cael eu diystyru. Byddai argymhellion yn cael eu gwneud ar y sail bod y canlyniadau sydd ar gael yn dangos i ganlyniadau dysgu’r cynllun gael eu cyflawni. Yn yr un modd â graddau Baglor, ni fyddai unrhyw newid i nifer y credydau y gallai myfyrwyr eu methu. Byddai'r diwygiadau’n cael eu cyhoeddi yng Nghonfensiynau Arholiadau’r Brifysgol.

**38. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

**39. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

1. Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2022 a’r 02 Chwefror 2023 (SEN2223-051).

**PENDERFYNWYD**

2. Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**40. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi’r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2223-023).

NODWYD

Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

4. Roedd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal ynglŷn â chefnogaeth iaith i fyfyrwyr y tu allan i'r Ganolfan Saesneg Ryngwladol, a byddai diweddariad yn cael ei roi i gyfarfod y Senedd ym mis Mehefin.

9.7 Roedd y canllawiau ar waith maes cymeradwy yng nghyswllt gofynion preswyl ymchwil uwchraddedig wedi cael eu diweddaru, a therfynwyd gweithredu ar y mater.

9.8 Roedd ymgyrch yn y cyfryngau cymdeithasol gan Undeb y Myfyrwyr ar y gweill, yn rhybuddio myfyrwyr am beryglon cydgynllwynio a defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn gwaith i'w asesu.

9.8 Cyhoeddwyd canllawiau ar y gwahaniaeth rhwng lledaenu ymchwil a rhannu gwaith a asesir, a therfynwyd gweithredu ar y mater.

11. Cafodd yr Is-Strategaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg ei chymeradwyo gan y Cyngor, a therfynwyd gweithredu ar y mater.

**41. GOHEBIAETH**

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

**42. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR I'R SENEDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN2223-053).

NODWYD

1. Roedd tair prif ran i'r adroddiad: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Roedd tuedd gyffredinol y ceisiadau'n cadw'n gyson, gydag ychydig o gynnydd yn nifer yr ymgeiswyr o Gymru. Roedd hefyd yn foddhaus nodi'r cynnydd sy'n parhau yn nifer yr ymgeiswyr rhyngwladol. Cynhaliwyd tri diwrnod ymweld i ymgeiswyr yn ystod gwanwyn 2023, ynghyd â diwrnod agored i israddedigion.

3. Er y byddai angen rheoli'r sefyllfa ariannol yn ofalus o hyd, braf oedd nodi ychydig o welliant oherwydd cyfres o gamau lliniaru yn ystod y flwyddyn, ynghyd â chynnydd yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol ym mis Ionawr 2023. Roedd gwaith cynllunio cyllideb 2023/24 ar y gweill, gyda'r nod o greu gwarged i gefnogi twf mewn ymchwil ac addysgu.

4. Yn rhan o ddathliadau'r 150, cynhaliwyd digwyddiad gan Arglwydd Cwmgïedd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 23 Mawrth, lle bu'r Farwnes Kay Andrews a'r Athro Tim Woods yn annerch y gwesteion. Ddiwedd mis Mawrth, roedd yr Athro Tim Woods, Dr Rhodri Llwyd Morgan a'r Athro Mererid Hopwood wedi cynrychioli'r Brifysgol yn Efrog Newydd a Washington, a fu'n gyfle pwysig i gysylltu â chyn-fyfyrwyr a chyfeillion yng Ngogledd America.

5. Cyrhaeddodd y Brifysgol y rhestr fer mewn pum categori yng Ngwobrau Myfyrwyr *WhatUni* eleni, a daeth i'r trydydd safle yn gyffredinol.

6. Ni allai'r Is-Ganghellor fod yn bresennol yng nghyfarfod y Senedd, ac mae'n debygol y byddai arni angen cyfnod pellach o absenoldeb yn dilyn llawdriniaeth. Petai amgylchiadau'n galw am newidiadau gweithredol dros dro, gwneir yr addasiadau angenrheidiol gan Gyngor y Brifysgol.

**43. PWYLLGOR YMCHWIL AC ARLOESI**

1. <u>Adroddiad gan y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Tîm Effaith Ymchwil (SEN2223-054).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ymchwil ar 28 Tachwedd 2022 a 14 Ebrill 2023.

2. Cafodd y polisi teithio ei ddiwygio a'i gymeradwyo, a'i ddiweddaru ar wefan y Brifysgol.

3. Roedd adolygiad o'r Polisi Absenoldeb Ymchwil ar y gweill, yn cynnwys ymgynghoriad â phenaethiaid adrannau academaidd a gwasanaethau proffesiynol, cyn cael ystyriaeth ffurfiol yng nghyfarfod y Senedd ym mis Mehefin.

4. Byddai tri 'Diwrnod Mawr Ymchwil’ yn cael eu cynnal yn rhan o’r FfRhY a monitro ymchwil, a byddai'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Senedd. Byddai dull gwahanol o fonitro ymchwil yn cael ei ddefnyddio yn ystod yr haf, lle byddai adrannau’n cyflwyno eu hymchwil i gydweithwyr ar draws y Brifysgol. Cafodd aelodau'r Senedd eu hannog i fod yn bresennol os oedd hynny’n bosib.

5. Roedd archwiliad o'r Concordat ar gyfer Datblygiad Ymchwilwyr ar y gweill. Er bod statws seminarau ymchwil yn parhau i fod yn aneglur, roedd gwaith yn cyflymu i alluogi'r Brifysgol i gyrraedd y targed gofynnol o 10 diwrnod y flwyddyn ar gyfer datblygiad ymchwilwyr.

2. <u>Fframwaith Rhyngwladol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi) (SEN2223-055)

NODWYD

1. Datblygwyd y Fframwaith Rhyngwladol mewn ymgynghoriad â chydweithwyr ledled y Brifysgol, ac fe'i cynlluniwyd i ymgorffori a hyrwyddo cysylltiadau rhyngwladol ymhob rhan o’r Brifysgol a’u datblygu ymhellach. Roedd y fframwaith yn cydnabod manteision ariannol ac economaidd cysylltiadau rhyngwladol, eu pwysigrwydd i enw da’r Brifysgol, ynghyd â'u gwerth academaidd i ymchwil ac addysgu.

2. Gan adeiladu ar werthoedd craidd Cynllun Strategol y Brifysgol, roedd y Fframwaith yn nodi cyfres o egwyddorion a fyddai'n sail i'r dull o feithrin cysylltiadau rhyngwladol ar draws nifer o strategaethau'r brifysgol, ynghyd ag ymrwymiad i ddwyieithrwydd. Croesawodd yr Aelodau bwyslais y fframwaith ar egwyddorion, gan y gellid defnyddio hyn yn batrwm i brosiectau yn y dyfodol.

**44. ADRODDIAD O’R BWRDD ACADEMAIDD**

1. <u>Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd, Kim Bradick (SEN2223-056).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Academaidd ar 08 Mawrth 2023.

2. Anogwyd yr holl staff sy'n ymwneud ag addysgu ac asesu i fanteisio ar yr adnoddau helaeth a defnyddiol yn yr adran adnoddau i aelodau ar wefan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

3. Roedd Rheoliad y Brifysgol ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol wedi'i ddiweddaru i gynnwys y categori 'cyflwyno gwaith a gynhyrchwyd gan Ddeallusrwydd Artiffisial fel eich gwaith eich hun', ynghyd â chanllawiau wedi'u diweddaru ynglŷn â chosbau. Roedd yr achosion cyntaf o Ymddygiad Academaidd Annerbyniol yn gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial wedi cael eu hystyried gan baneli yn y brifysgol, ac roedd dogfen o ganllawiau newydd wedi'i pharatoi ar gyfer staff. Roedd yr Asiantaeth wedi cyhoeddi dogfen ynglŷn â Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol, ac roedd adrannau'n cymryd camau cychwynnol i adolygu eu dulliau asesu i frwydro'r defnydd a wneir ohono.

4. Cafodd cyfres o adroddiadau blynyddol eu hystyried gan y Bwrdd Academaidd, a thynnwyd sylw at bwysigrwydd cadw cofnodion da a chydymffurfio â gweithdrefnau er mwyn lleihau nifer Cwynion Myfyrwyr.

5. Er bod nifer Cwynion Myfyrwyr ac Adolygiadau Terfynol wedi aros yn debyg yn 2022, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr Apeliadau Academaidd, gan gynnwys y rhai a oedd yn ymwneud ag adroddiadau Asesu Anghenion Astudio. Roedd hyn yn cael ei ystyried ymhellach gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau i Fyfyrwyr.

6. Roedd y garfan gyntaf o fyfyrwyr BSc Nyrsio (Iechyd Oedolion a Iechyd Meddwl) wedi dechrau ym mis Medi 2022, ac yna Rhaglen Dychwelyd i Ymarfer ym mis Chwefror 2023, a oedd wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Roedd confensiynau a rheoliadau arholiadau pwrpasol wedi'u datblygu a'u cymeradwyo'n weithredol gan Gadeirydd y Bwrdd Academaidd cyn dechrau'r rhaglen. Roedd rhaglen BSc ran-amser hefyd i fod i ddechrau ym mis Mehefin 2023.

2. <u>Diwygiadau i Reoliadau</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2223-057).

NODWYD

1. <u>Rheoliadau BVSc</u>. O ganlyniad i weithredu confensiynau arholi y bwrdd rhaglenni ar y cyd yn yr haf 2022, cynigiwyd rhoi eglurhad pellach ar sawl mater yn ymwneud â modiwlau wedi'u capio a modiwlau heb eu capio, ynghyd â'r weithdrefn ynghylch amgylchiadau esgusodol.

2. <u>Gofynion Preswyl i Fyfyrwyr</u>. Cafodd y geiriad ei ddiwygio mewn ymateb i argymhellion gan y Senedd, a byddai'n cael ei ymgorffori yn adran 3.1 y Rheolau a'r Rheoliadau (gofynion preswyl). Byddai'r canllawiau a gyhoeddwyd yn y Dyddiadau Tymor hefyd yn cael eu newid.

3. <u>MSc Cyfrifiadureg Uwch</u>. Cafodd y gwelliannau eu cynnig a'u cymeradwyo trwy Gam Gweithredol gan Gadeirydd y Senedd, er mwyn gallu dechrau'r cylch Derbyn Myfyrwyr ar gyfer mis Ionawr 2024. Byddai'r rhain yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod y cwrs yn un hwy (a oedd yn angenrheidiol ar gyfer dechrau ym mis Ionawr) ynghyd â'r opsiynau am leoliad diwydiannol sy'n rhan o'r dyfarniad. Roedd disgwyl i'r cynllun ddechrau ym mis Ionawr 2024.

4. <u>Rheoliadau a chanllawiau Ymchwil Uwchraddedig</u>. Datblygwyd y newidiadau arfaethedig mewn ymateb i argymhelliad gan Arolwg Gwella Ansawdd 2022, a byddant yn atgyfnerthu goruchwyliaeth y sefydliad wrth benodi arholwyr allanol ar gyfer graddau ymchwil. Cytunwyd y dylid diwygio'r testun arfaethedig ar gyfer adran 7.11 yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd ymhellach i egluro y dylai fod gan bob arholwr allanol ar gyfer graddau ymchwil 'brofiad o arolygu myfyrwyr ymchwil yn llwyddiannus ac o arholi *mewnol* yn achos ymgeiswyr am raddau ymchwil'.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyo diwygiadau i Reoliadau'r radd BVSc.

6. Cymeradwyo diwygiadau i'r Gofynion Preswyl i Fyfyrwyr.

7. Nodi Cymeradwyaeth Weithredol y diwygiadau i'r Rheoliadau ar gyfer MSc Cyfrifiadureg Uwch.

8. Cymeradwyo diwygiadau i ganllawiau Ymchwil Uwchraddedig (Llawlyfr Ansawdd Academaidd 7.11) gyda mân ddiwygiadau pellach fel y nodir yn y cofnodion.

**45. ADRODDIAD GAN FWRDD Y DDARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Sarah Jones, Cofrestrydd Cynorthwyol - Partneriaethau Academaidd (SEN2223-058).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol ar 16 Mawrth 2023.

2. Roedd y Bwrdd wedi ystyried ail ddrafft Strategaeth Darpariaeth Gydweithrediadol PA, ac wedi cymeradwyo'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gynlluniwyd i wella effeithlonrwydd y Bwrdd, yn amodol ar fân ddiwygiadau i'r geiriad.

3. Croesawodd yr Aelodau yr adroddiadau a ddaeth gan y tîm Partneriaethau Academaidd yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Gweithredol y Cyfadrannau, a fu'n gymorth wrth reoli portffolio'r partneriaethau adrannol.

**46. BLACKBOARD ULTRA**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kate Wright, yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu (SEN2223-059)

NODWYD

Roedd y paratoadau ar gyfer cyflwyno Blackboard Ultra yn llwyr yn haf 2023 yn parhau, a chytunwyd ar dempled cwrs newydd ar ôl cael adborth gan y Pwyllgor Gwella Academaidd. Ochr yn ochr â datblygiadau technegol, roedd yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu yn cynnal rhaglen hyfforddiant i staff, yn cynnwys blogiau, negeseuon e-bost wythnosol, a chyfres o sesiynau hyfforddi adrannol. Hefyd roedd staff yn cael eu hannog i fynd i'r Gynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol a fyddai'n rhoi cyfle pellach i drafod. Roedd Gwasanaethau Gwybodaeth yn ymchwilio i ffyrdd o gynorthwyo adrannau i gyhoeddi rhestrau darllen, ac yn adolygu pa mor hawdd yw hi i gael gafael ar wybodaeth.

**47. CYFADRAN Y CELFYDDYDAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL – AROLWG O FFRAMWEITHAU'R GYFADRAN**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor, (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol) (SEN2223-060);

NODWYD

1. Roedd Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol yn cynnig sefydlu ysgol newydd a fyddai'n dod â'r tair adran ganlynol i gynghrair strategol: Y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd; Ieithoedd Modern; a Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol.

2. Byddai'r adrannau sy'n weddill yn y Gyfadran (y Gyfraith a Throseddeg; Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu; Gwleidyddiaeth Ryngwladol; Hanes a Hanes Cymru; Addysg; a Chelf) yn gweithredu model cysylltiedig er mwyn cael cynrychiolaeth ar y cyd ar bwyllgorau canolog y brifysgol.

3. Roedd y cynigion yn rhan o brosiect cyfadran, a'r nod oedd lleihau llwyth gwaith, hyrwyddo lles staff, ad-drefnu amser er mwyn hwyluso cynhyrchiant ymchwil, a sicrhau bod amcanion sefydliadol allweddol yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

4. Roedd y prosiect yn cynnwys cyfres o 'linellau coch' ac ymrwymiad cadarn i ddiogelu hunaniaeth yr adrannau, gan gynnwys hunaniaeth Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, ac i warchod eu hamlygrwydd a'u bri allanol. Byddai'r cynigion yn cadw at niferoedd presennol y staff, a byddai defnydd mewnol o'r Gymraeg yn cael ei sicrhau trwy gyfrwng cyfieithu ar yr pryd yng nghyfarfodydd yr ysgol a phenodiad dirprwy bennaeth â chyfrifoldebau dynodedig.

5. Nid oedd enw a fframwaith ffurfiol yr ysgol newydd wedi'u pennu eto, a byddai ymgynghori pellach yn digwydd cyn cael cymeradwyaeth Cyngor y Brifysgol. Byddai'r fframwaith newydd yn cael ei gyflwyno ar ffurf peilot o fis Medi 2023, bydd Dangosyddion Perfformiad yn cael eu goruchwylio'n ofalus, ac yna cynhelir adolygiad ffurfiol ar ddiwedd 2023/24.

6. Cafodd y cynigion cychwynnol a'u hamcanion cyffredinol eu croesawu gan yr aelodau, a byddent yn aros am fanylion pellach ynglŷn â'r fframwaith cyn rhoi ystyriaeth ffurfiol. Byddai cymeradwyaeth derfynol yn cael ei chyfeirio at Gyngor y Brifysgol. Nodwyd

hefyd y gallai'r swydd 'dirprwy bennaeth' arfaethedig fod yn batrwm defnyddiol ar gyfer cynllunio olyniaeth ar draws adrannau academaidd y Brifysgol.

**PENDERFYNWYD**

7. Croesawu cynigion cychwynnol yr adolygiad a gwahodd Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol i gyflwyno cynigion terfynol i gyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf. Byddai'r cynigion hefyd yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Senedd. [**GWEITHREDU:** Dirpwyr Is-Ganghellor Cyfafran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol].

## 48. DATGANIAD POLISI CYNALIADWYEDD A'R STRATEGAETH SERO NET

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd) a Dewi Day, Ymgynghorydd yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd (SEN2223-061).

NODWYD

1. Roedd y Datganiad Polisi Cynaliadwyedd wedi'i ddiweddaru bellach i gynnwys adborth cynharach gan aelodau'r Senedd ac roedd i'w gael ar wefan y Brifysgol. Hefyd, cafodd Strategaeth Sero Net a Chynllun Gweithredu Sero Net eu datblygu a'u cymeradwyo gan Weithrediaeth y Brifysgol. Amcangyfrifwyd mai tua £52M dros yr 8 mlynedd nesaf fyddai gwariant ariannol y sefydliad, ond roedd disgwyl hefyd y byddai arbedion yn cael eu gwneud trwy fentrau cynaliadwyedd penodol.

2. Roedd y Strategaeth Sero Net yn amlinellu mesurau a fyddai'n torri tua 70% ar allyriadau PA ac yn nodi nifer o gamau i'w cymryd i sicrhau gostyngiadau pellach. Byddai perfformiad o'i gymharu â chamau gweithredu a'r targedau'n cael ei adnewyddu'n flynyddol, a byddai'r strategaeth yn cael ei diweddaru bob dwy flynedd i ymgorffori camau gweithredu pellach yn ôl yr angen.

3. Byddai angen asesu'r ymrwymiad i leihau allyriadau carbon ac allyriadau eraill sy'n deillio o deithio gan staff a myfyrwyr yn gysylltiedig ag amcanion ymchwil a rhwydweithio, a gwneud teithio mor gynaliadwy â phosibl.

4. Cafodd y datganiad polisi diwygiedig ei groesawu gan yr aelodau. Serch hynny, nodwyd meysydd allweddol ar gyfer datblygiadau pellach. Roeddent yn cynnwys dulliau eraill posibl o deithio nôl a blaen i'r gwaith, lleihau'r defnydd o blastigion ar y campws, a rhoi mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd yn y cwricwlwm ac mewn ymchwil. Hefyd, gellid gwneud mwy i dynnu sylw at gynlluniau allweddol ar gyfer cynaliadwyedd yn ystod dyddiau agored a dyddiau ymweld.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyo'r diwygiadau i'r Datganiad Polisi ar Gynaliadwyedd.

## 49. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Cafodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (SEN2223-062);

2. Grantiau Ymchwil (SEN2223-063);

3. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN2223-064); a

NODWYD

4. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

5. Byddai Cadeirydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ymweld â Phrifysgol Aberystwyth ar 24 Mai 2023.

6. Nododd yr aelodau nad oedd yn ymddangos bod data'r brifysgol yn cynnwys yr holl grantiau ymchwil.

PENDERFYNWYD

7. Adolygu’r drefn o grynhoi data am grantiau ymchwil ac yn adrodd yn ôl i'r Senedd. [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi].

**50. COFNODION PWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN2223-043):

1. Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (23 Tachwedd 2022 ac 20 Chwefror 2023);

2. Y Bwrdd Academaidd (8 Mawrth 2023);

3. Y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (16 Mawrth 2023); a

4. Y Cyngor (28 Tachwedd 2022; a 10 Chwefror 2023).

NODWYD

5. Yr adroddiadau a ddaeth o'r pwyllgorau.

**51. UNRHYW FATER ARALL**

NODWYD

Llongyfarchwyd yr Athro Andrew Evans a'r Athro Helen Roberts gan yr aelodau ar eu hethol yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

HGRh 120623